Deeside College
Coleg Glannau Dyfrdwy

Cynllun Cydraddoldeb Sengl a Chynllun Gweithredu

2009/2010

Mae Coleg Glannau Dyfrdwy wedi ymrwymo i weithredu er mwy hyrwyddo cyfle cyfartal a gwerthfawrogi amrywiaeth ymysg ei fyfyrwyr, gweithwyr, rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn gyffredinol.

Rhagair

Deeside College
Coleg Glannau Dyfrdwy

Cynllun Cydraddoldeb Sengl a Chynllun Gweithredu 2009 - 2010

Mae Coleg Glannau Dyfrdwy wedi ymrwymo i hyrwyddo amrywiaeth a chyfle cyfartal ar gyfer ei fyfyrwyr, gweithwyr, partneriaid, cyfranogion ac yn ei gysylltiadau gyda'r gymuned. Mae ein gwerthoedd craidd, a welir yn ddiweddarach yn y cynllun hwn, yn dangos hyn yn glir iawn. Ein nod yw bod yn sefydliad cynhwysol lle mae cyfle cyfartal i bawb gyflawni popeth sydd o fewn ei allu.

Mae Coleg Glannau Dyfrdwy yn falch o'r hyn y mae wedi ei gyflawni o ran cynorthwyo myfyrwyr a gweithwyr gydag anghenion a safbwyntiau arbennig. Mae canlyniadau ein Harolwg gan Estyn yn ategu hyn, fel y mae ein statws Buddsoddwyr mewn Pobl a nifer o ddyfarniadau unigol fel y cynllun 'Dau Dic' ar gyfer anabledd. Serch hynny, mae gennym lawer i'w wneud eto.

Rydym wedi mabwysiadu'r model anabledd cymdeithasol. Mae hyn yn bwysig iawn o ran dylanwadu ar ein dull o ymdrin â Dysgu, Addysgu ac Asesu, y modd yr ydym yn mynd ati i ehangu cyfranogiad a'r modd y mae ein polisïau Adnoddau Dynol a chytundebau ar gyfer y gweithle yn cael eu llunio.

Wrth gyflawni ein Cynllun rydym wedi cynnwys gweithwyr a myfyrwyr o bob grŵp buddiant, yn ogystal â sefydliadau a phartneriaid allanol.

Yn olaf, mae ein Cynllun Cydraddoldeb Sengl a Chynllun Gweithredu yn rhestru ein blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod 2009/10 i 2011/12 a'r modd y byddwn yn cyflawni ein hamcanion. Bydd parhau i siarad gyda gweithwyr priodol, myfyrwyr a chynrychiolwyr y gymuned yn gymorth i ni goethi ein blaenoriaethau ar gyfer gwell a bydd diweddariadau i'r Cynllun o hyn ymlaen yn cynnwys hyn.

Rwy'n croesawu adborth gan unigolion, grwpiau a sefydliadau, yn y sefydliad hwn a thu allan iddo, ynghylch ein Cynllun Cydraddoldeb Sengl a Chynllun Gweithredu. Yn bwysicaf oll, rwy'n croesawu adborth gennych chi ac rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda chi i gyflawni ein nodau.

David Jones
Pennaeth/Prif Weithredwr

Deeside College
Coleg Glannau Dyfrdwy

Cynllun Cydraddoldeb Sengl a Chynllun Gweithredu 2009 - 2010

CYFLWYNIAD I'N CYNLLUN CYDRADDOLDEB

Byddwn yn gweithredu i hyrwyddo cyfle cyfartal a gwerthfawrogi amrywiaeth. (9fed Gwerth Craidd y Coleg)

Mae gweledigaeth y Coleg, ein cenhadaeth, gwerthoedd a mabwysiadu'r model anabledd cymdeithasol gennym yn cyfannu ac atgyfnerthu ein hymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth.

Ein gweledigaeth yw bod yn goleg rhagorol yn y DU

Ein cenhadaeth yw darparu addysg a hyfforddiant rhagorol i bawb.

Ein gwerthoedd yw:

- Rhoi dysgwyr a chwsmeriaid yn gyntaf.
- Gwerthfawrogi cyfraniad pawb a chlodfori llwyddiant.
- Gweithio gyda'n gilydd i lwyddo gyda chydweithwyr ac eraill.
- Cynnal ymdeimlad o gymuned a'n swyddogaeth yng Nghymru.
- Gweithredu i hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Chymreictod.
- Cyfathrebu'n effeithiol, yn agored ac yn onest.
- Cadw at ein gair a gwneud yr hyn sy'n iawn.
- Gosod a chynnal safonau uchel ym mhopeth yr ydym yn ei wneud.
- Gweithredu i hyrwyddo cydraddoldeb a gwerthfawrogi amrywiaeth.
- Derbyn ein cyfrifoldeb unigol ac ar y cyd am lwyddiant ein dysgwyr a'r Coleg.
- Ysgogi syniadau newydd a'u croesawu gyda brwdfrydedd.
- Ymdrechu i ddiogelu ein hamgylchedd a chynnal ein cyfrifoldeb cymdeithasol, yn lleol ac yn fyd-eang, trwy gyflwyno'r cwricwlwm a gweithredu'n strategol.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Sengl yn dangos ein hymrwymiad i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad ar draws pob un o'r dosbarthiadau cydraddoldeb ac mae'n rhoi sylw arbennig i ymrwymiad y Coleg a'i ddyletswyddau cyhoeddus cyfreithiol i hyrwyddo cydraddoldeb hil, rhyw ac anabledd o dan y Dyletswyddau Cydraddoldeb perthnasol.

Deeside College
Coleg Glannau Dyfrdwy

Cynllun Cydraddoldeb Sengl a Chynllun Gweithredu 2009 - 2010

CYNNWYS

Adran 1	**Cyflwyniad**	**Tudalen 2**
	Ein blaenoriaethau cydraddoldeb	**Tudalen 4**
Adran 2	**Am Goleg Glannau Dyfrdwy**	**Tudalen 6**
	Y dyletswyddau yr ydym wedi eu mabwysiadu	**Tudalen 7**
Adran 3	**Ein Cynllun Cydraddoldeb Sengl**	**Tudalen 11**

Deeside College
Coleg Glannau Dyfrdwy

Cynllun Cydraddoldeb Sengl a Chynllun Gweithredu 2009 - 2010

Ein Blaenoriaethau Cydraddoldeb

Mae Coleg Glannau Dyfrdwy wedi penderfynu mai'r canlynol yw'r amcanion pwysicaf ar gyfer y cynllun presennol.

Bydd CDP y Coleg yn adlewyrchu'r camau gweithredu hyn a bydd y corff Llywodraethol yn derbyn adroddiad arnynt ar adegau penodol.

Hyrwyddo cydraddoldeb yn ein haddysgu, hyfforddiant a chymorth i'r myfyrwyr

- Byddwn yn datblygu darpariaeth o addysgu sy'n gyfranogol ac o fewn cyrraedd pobl.
- Byddwn yn parhau i wella hygyrchedd ein cyflwyno a gwasanaethau'r myfyrwyr ar gyfer myfyrwyr hen a newydd.
- Byddwn yn parhau i ddatblygu ein darpariaeth er mwyn diwallu anghenion amrywiol a phenodol.
- Byddwn yn rhoi sylw i fylchau yn ein gwybodaeth sylfaenol er mwyn sicrhau ein bod blaenoriaethu prif feysydd cydraddoldeb yn y cyflwyno.
- Byddwn yn arolygu effeithiolrwydd ein darpariaeth o wybodaeth, cyngor, cymorth a chyfarwyddyd er mwyn sicrhau bod gwybodaeth o fewn cyrraedd pobl, yn ddiweddar ac yn gredadwy.
- Byddwn yn arolygu pob agwedd ar ein darpariaeth er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i ddiwallu anghenion pob carfan.
- Byddwn yn arolygu pob agwedd ar ein polisi recriwtio myfyrwyr yn unol ag egwyddor cynhwysiad.
- Byddwn yn parhau i ddatblygu ein dulliau o gynnwys cysyniadau cydraddoldeb ac amrywiaeth yng nghwricwlwm y coleg.

Hyrwyddo cydraddoldeb yn ein harferion cyflogaeth

- Byddwn yn datblygu ein strategaeth ymglymiad i ymgysylltu gydag ac ymateb i'n gweithwyr.
- Byddwn yn ymgynghori gydag a chynnwys gweithwyr y coleg ym mhob agwedd ar gydraddoldeb er mwyn helpu i hysbysu ein gwasanaethau a'n cymorth i'r gweithwyr.
- Byddwn yn cryfhau ein fframwaith caffael cydraddoldeb fel bod modd i gyfranogion ddangos eu hymrwymiad i gydraddoldeb a thrafod hyfforddiant iddynt hwy eu hunain fel y bo angen.

Deeside College
Coleg Glannau Dyfrdwy

Cynllun Cydraddoldeb Sengl a Chynllun Gweithredu 2009 - 2010

- Byddwn yn gwella ein systemau arolygu a dadansoddi er mwyn casglu mwy o ddata, yn enwedig ynghylch materion cyflogaeth fel recriwtio, mynediad i hyfforddiant a dyrchafiad.
- Byddwn yn sicrhau bod ein prosesau tendro yn rhoi sylw i bob llinyn o gydraddoldeb a thargedu gwaith wrth ddatblygu meysydd cydraddoldeb.

Deeside College
Coleg Glannau Dyfrdwy

Cynllun Cydraddoldeb Sengl a Chynllun Gweithredu 2009 - 2010

Hyrwyddo cydraddoldeb yn ein gweithgareddau cysylltiol a phartneriaethau

- Byddwn yn parhau i arolygu amrywiaeth ein cyfranogion ym mhob agwedd ar gydraddoldeb er mwyn adlewyrchu'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu a cheisio cynnal neu wella ein delwedd ac amlygrwydd.

Hyrwyddo cydraddoldeb yn ein cysylltiadau gyda'r gymuned a'r cyhoedd yn gyffredinol

- Byddwn yn sicrhau bod delwedd allanol y coleg yn ategu ein hymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth a'i bod annog pob rhan o'r gymuned i ddod atom.
- Byddwn yn parhau i geisio dulliau o wella ein cysylltiad gyda grwpiau lleiafrifol a gwella amrywiaeth proffiliau'r myfyrwyr a'r gweithwyr.

Deeside College
Coleg Glannau Dyfrdwy

Cynllun Cydraddoldeb Sengl a Chynllun Gweithredu 2009 - 2010

AM Y COLEG

Mae Coleg Glannau Dyfrdwy yn Sir y Flint yng Ngogledd Ddwyrain Cymru ac mae ganddo enw ers tro byd o fod yn un o golegau Addysg Bellach blaenllaw Cymru. Mae'r coleg yn cynnig mwy na 60 o gyrsiau amser llawn yn cynnwys Safon Uwch a chyrsiau galwedigaethol fel Diplomau Cyntaf a Chenedlaethol BTEC ac NVQ. Hefyd, mae'n cynnig amrywiaeth fawr o raglenni hyfforddi prentisiaid, mwy na 200 o gyrsiau rhan amser yn y gymuned ar gyfer dysgwyr sy'n oedolion ac mae wedi datblygu rhaglen eang o gysylltiadau gydag ysgolion ar gyfer dysgwyr 14–16 oed o bob rhan o Sir y Fflint. Mae gan Goleg Glannau Dyfrdwy fwy na 2000 o fyfyrwyr amser llawn ac oddeutu 13,000 o fyfyrwyr rhan amser (yn cynnwys rhai sy'n dysgu yn y gwaith a phrentisiaid). Ar hyn o bryd, mae'r coleg yn cyflogi bron i 600 o weithwyr ac mae ganddo incwm blynyddol o fwy na £22m, y mae 35% ohono yn dod o gyllid Addysg Bellach heb fod yn graidd gan Lywodraeth y Cynulliad.

Mae Coleg Glannau Dyfrdwy wedi llwyddo'n gyson i ennill nifer o wobrau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sy'n cydnabod ansawdd ac amrywiaeth ei wasanaethau, llwyddiannau'r myfyrwyr a'r gweithwyr a'i allu i lunio hyfforddiant yn arbennig ar gyfer anghenion cyflogwyr, yn lleol ac yn genedlaethol. Cafodd enw da'r coleg hwb arall pan oedd y cyntaf yn y wlad i ennill dyfarniadau Gradd 1 gan Estyn am ei ddarpariaeth o Ddysgu yn y Gwaith yn ogystal â darpariaeth o Addysg Bellach, sy'n golygu ei fod yn un o golegau gorau'r DU.

Mae'r Coleg wedi uno ag un coleg ac mae'n trafod uno gydag un arall ar hyn o bryd. Bydd y Cynllun Cydraddoldeb Sengl yn cael ei ddiweddaru'n ffurfiol os bydd hyn yn digwydd, ond mae nifer o gamau gweithredu yng Nghynllun Gweithredu y Cynllun Cydraddoldeb Sengl yn rhagflaenu'r uno.

Deeside College
Coleg Glannau Dyfrdwy

Cynllun Cydraddoldeb Sengl a Chynllun Gweithredu 2009 - 2010

GOLWG AR EIN DYLETSWYDD GYHOEDDUS

Mae dyletswydd gyfreithiol Coleg Glannau Dyfrdwy, yn awdurdod cyhoeddus, wedi ei diffinio yn Neddf Cydraddoldeb 2006. Mae gennym ymrwymiadau mewn perthynas â hil, anabledd a rhyw yn unol â Rheoliadau 2003 Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 (Newid), y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd fel y newidiwyd yn 2005 a Deddf Cydraddoldeb 2006. Mae'r deddfau hyn yn mynnu ein bod yn gweithredu'n fwriadol i gyflawni gofynion cyffredinol a phenodol y Dyletswyddau Anabledd, Hil a Rhyw.

Yn ogystal â'r gofynion cyfreithiol hyn, rydym yn cydnabod ein hymrwymiadau cyfreithiol o dan nifer o ddeddfau cydraddoldeb eraill mewn perthynas ag oed, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chred, yn ogystal â darpariaethau ehangach y deddfau cydraddoldeb craidd mewn perthynas â hil, anabledd a rhyw. Mae'r Coleg yn ceisio hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad ym mhob un o'r llinynnau cydraddoldeb cydnabyddedig.

Mae Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Coleg yn bolisi cyffredinol sy'n rhoi sylw i ddyletswyddau a chyfrifoldebau cyfreithiol y Coleg mewn perthynas ag amrywiaeth a chydraddoldeb. Nod y Polisi yw atal neu ddileu pob math o wahaniaethu annheg a allai ddigwydd yn y Coleg a gweithredu i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yng nghymunedau'r myfyrwyr, y gweithwyr a'r rhanddeiliaid.

Yn sail i'r polisi hwn mae chwe pholisi penodol ar gyfer oed, anabledd, rhyw, hil, goddefgarwch crefyddol a diwylliannol a chyfeiriadedd rhywiol. Mae'r Polisïau Amrywiaeth a Chydraddoldeb hyn yn ategu camau gweithredu eraill y mae'r Coleg wedi eu dilyn i gyflawni gofynion cyffredinol a phenodol y dyletswyddau o ran cydraddoldeb anabledd, rhyw a hil, yn ogystal â gofynion deddfau cydraddoldeb ehangach.

Deeside College
Coleg Glannau Dyfrdwy

Cynllun Cydraddoldeb Sengl a Chynllun Gweithredu 2009 - 2010

Y DREFN SYDD GENNYM I HYRWYDDO CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

Mae rheolaeth y coleg ar bob lefel wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae gennym hefyd grŵp rheoli Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a swyddogaethau penodol wedi eu henwi sy'n gyfrifol am hyrwyddo a gweithredu'r cynllun.

Corfforaeth y Coleg

Mae'r Gorfforaeth yn cymeradwyo Cynllun Cydraddoldeb Sengl y coleg ac mae'n derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf pob tymor am y Cynllun Gweithredu. Mae'r Llywodraethwyr yn cael eu dewis gydag ystyriaeth i'r angen am amrywiaeth ac mae pob Llywodraethwr yn derbyn hyfforddiant ar gyfer cyfle cyfartal.

Y Tîm Rheoli Uwch

Mae'r Tîm Rheoli Uwch yn cynnwys y bobl sydd yn swyddi uwch y coleg, Penaethiaid y Cyfadrannau a'r Rheolwr Marchnata. Mae'r tîm yn derbyn adroddiadau gan y Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth tair gwaith y flwyddyn ac mae'n cymeradwyo cynigion gan y grŵp hwnnw. Mae pob un o reolwyr y coleg yn derbyn hyfforddiant ar gyfer cyfle cyfartal ac yn mynd i ddigwyddiadau mewnol sy'n rhoi sylw i agweddau penodol ar y Cynllun, fel materion anabledd a rhyw.

Y Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Ffurfiwyd grŵp newydd yn 2008, sy'n dod â llawer at ei gilydd o aelodau'r ddau grŵp blaenorol oedd yn rhoi sylw ar wahân i faterion myfyrwyr a gweithwyr. Y Pennaeth yw cadeirydd y grŵp. Prif orchwyl y grŵp yw hyrwyddo amrywiaeth a chydraddoldeb. Mae ganddo gyfrifoldeb hefyd am arolygu cynnydd gyda Chynllun Gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Sengl, cynnig argymhellion o ran gweithredu cywirol a chynigion o ran ychwanegiadau i'r Cynllun. Mae pob un o aelodau'r grŵp yn gyfrifol am roi gwybod am gyfleoedd i wella, boed y rhain o'r coleg, fel sylwadau myfyrwyr a gweithwyr, neu gan gysylltiadau allanol a gwybodaeth ddiweddar.

Y Rheolwr cyfrifol am Ansawdd

Mae'n gyfrifol am gynnal polisïau'r coleg trwy'r System Rheoli Ansawdd ac am sicrhau bod Asesiadau Effaith Cydraddoldeb yn digwydd. Mae'n gyfrifol ar y cyd am gynrychioli'r Coleg mewn rhwydweithiau a digwyddiadau allanol a rhoi cyngor ynghylch newidiadau yn y deddfau ac arferion gorau o ran Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Mae'n gyfrifol ar y cyd am arolygu gwefan a mewnrwyd y coleg er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd gyhoeddus berthnasol, eu bod

yn rhoi digon o wybodaeth a'u bod o fewn cyrraedd pobl. Mae'n cydgasglu data ynghylch perfformiad o ran Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (myfyrwyr a gweithwyr) ac mae'n gweithredu meincnodi allanol fel y bo'n briodol. Mae'n aelod o'r Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Dirprwy Bennaeth – Adnoddau Dynol a Gwasanaethau'r Myfyrwyr

Mae'n gyfrifol am gynnal y Cynllun Cydraddoldeb Sengl a Chynllun Gweithredu, a chynorthwyo gyda'r ymarfer Asesu Effaith cyntaf. Mae'n gyfrifol ar y cyd am gynrychioli'r Coleg mewn rhwydweithiau a digwyddiadau allanol a rhoi cyngor ynghylch newidiadau yn y deddfau ac arferion gorau o ran Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Mae'n gyfrifol ar y cyd am arolygu gwefan a mewnrwyd y coleg er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd gyhoeddus berthnasol, eu bod yn rhoi digon o wybodaeth a'u bod o fewn cyrraedd pobl. Mae'n cydgasglu data ynghylch perfformiad o ran Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (myfyrwyr a gweithwyr) ac mae'n gweithredu meincnodi allanol fel y bo'n briodol. Mae'n aelod o'r Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Mae'n gyfrifol hefyd am hysbysu'r Gorfforaeth o'r cynnydd gyda'r Cynllun Gweithredu.

Swyddogaethau eraill sy'n cyfrannu oddi mewn i'r sefydliad

Cydlynydd Cymorth Dysgu Ychwanegol – mae'n cefnogi Pennaeth y Gyfadran, Ansawdd a Chymorth i Ddysgwyr. Mae'r dyletswyddau yn cynnwys cymorth gydag Asesu Effaith. Hwn neu hon hefyd yw'r sawl sydd wedi ei enwebu o dan y deddfau POCA a POVA.

Gweithwyr Gwasanaethau'r Myfyrwyr ac Adnoddau Dynol - oherwydd eu bod yn swyddogaethau sy'n rhoi cymorth i ddysgwyr a gweithwyr y coleg yn benodol, angen penodol y ddwy garfan hyn yw sicrhau y cynhelir arferion da o ran cymorth ym mhob un o linynnau cydraddoldeb, a hynny o ran y prosesau a'r gweithdrefnau cyffredinol fel recriwtio a dethol, cyngor a chyfarwyddyd, a hefyd o ran ymdrin yn bendant ac yn briodol â phob ymholiad a phroblem unigol.

Undebau Llafur Cydnabyddedig – Ar hyn o bryd mae Coleg Glannau Dyfrdwy yn cydnabod pedwar undeb i ddibenion ymgynghori a chydfargeinio, sef UCU, AMie, Unison ac Unite. Mae pob un o'r undebau hyn wedi datgan diddordeb mewn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ac mae gan o leiaf un Swyddog Cydraddoldeb wedi ei enwi sy'n aelod o weithwyr y coleg. Cynhelir cyfarfodydd o leiaf pob tymor gyda chynrychiolwyr pob un o'r undebau hyn ac mae materion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu trafod yn rheolaidd.

Deeside College
Coleg Glannau Dyfrdwy

Cynllun Cydraddoldeb Sengl a Chynllun Gweithredu 2009 - 2010

Cymdeithas y Myfyrwyr – Mae Cymdeithas Myfyrwyr Coleg Glannau Dyfrdwy yn perthyn i'r NUS, sef UCM (Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr) ac mae wedi ymrwymo i hyrwyddo amrywiaeth a chydraddoldeb ymysg y myfyrwyr. I'r diben hwn, mae gan y Gymdeithas y swyddogion etholedig hyn:

- Llywydd y Dynion
- Llywydd y Merched
- Swyddog LHDT
- Swyddog Ethnig a Chodi Arian
- Swyddog Myfyrwyr Aeddfed a Rhan Amser
- Swyddog Cyngor y Myfyrwyr
- Swyddog Anabledd a Gweinyddiaeth

Y Dirprwy Bennaeth – Cwricwlwm ac Ansawdd a Phenaethiaid y Cyfadrannau – sy'n gyfrifol am sicrhau bod y camau gweithredu sydd eu hangen er mwyn dileu gwahaniaethu ac aflonyddu a hyrwyddo amrywiaeth a chydraddoldeb wedi eu gwreiddio ym mhob cyfadran a phob maes rhaglen. Mae'r camau gweithredu ar lefel Cyfadran neu Adran Cymorth Busnes yng Nghynllun Datblygu Ansawdd y Coleg y mae'r Rheolwr Ansawdd yn ei gydlynu.

Ein Cynllun Cydraddoldeb Sengl. (Pob cam gweithredu i'w arolygu gydag adroddiad arno yng nghyfarfodydd y Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.)

Blaenoriaeth	Cam gweithredu sydd i'w ddilyn	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed Cwblhau	Canlyniad Mesuradwy wedi'i Dargedu
Arweinyddiaeth Hyrwyddo a chefnogi pob llinyn a sicrhau y gweithredir y cynllun	Sicrhau bod pob strategaeth yn rhoi sylw i egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth	Pob rheolwr	Adolygiad ac adroddiad Rhagfyr 2009	Systemau asesu effaith wedi ymwreiddio'n llwyr. Mae pob datganiad a strategaeth berthnasol gan y coleg yn cyfeirio'n agored at egwyddorion cydraddoldeb
	Ail-gadarnhau'r ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth yn yr holl ddarpariaeth o addysgu a dysgu	Dirprwy Bennaeth Cwricwlwm ac Ansawdd Pennaethiaid Cyfadrannau Rheolwyr Meysydd Rhaglen	Adolygiad ac adroddiad Rhagfyr 2009	Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ESDGC) wedi ei chynnwys yn yr holl gwricwlwm 14-19
	Ail-gadarnhau'r ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth yn hyfforddiant y gweithwyr a datblygu proffesiynol parhaus	Dirprwy Bennaeth Adnoddau Dynol a Gwasanaethau'r Myfyrwyr Swyddog Dysgu a Datblygu	Adolygiad ac adroddiad blynyddol ym mis Mehefin	Pob un o weithwyr y coleg i fod wedi derbyn hyfforddiant ym mhob llinyn. Dysgu rhagnodedig fel Hyfforddiant Athrawon a PMAR i gynnwys canlyniadau penodol sy'n ymwneud â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth

Deeside College
Coleg Glannau Dyfrdwy

Cynllun Cydraddoldeb Sengl a Chynllun Gweithredu 2009 - 2010

	Rhoi gwybod i bob myfyriwr am bwysigrwydd a manteision hyrwyddo Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	Pob rheolwr	Yn parhau	Erthyglau rheolaidd (o leiaf bob tymor) yn Niweddariad y Gweithwyr a'r cyhoeddiad cyfatebol i'r myfyrwyr
	Sicrhau mai lles y dysgwyr yw'r peth pwysicaf. Datblygu diwylliant o anoddefgarwch tuag at fwlio ac aflonyddu a gwahaniaethu.	Pob rheolwr	Arolygu gydag adroddiadau ar bob digwyddiad o fwlio	Mae systemau cymorth ar gael er mwyn cynnwys lles dysgwyr wrth sefydlu pob myfyriwr a gweithiwr. Mae pob sefydlu i gyfeirio at safbwynt y coleg ar fwlio ac aflonyddu a gwahaniaethu.
	Sicrhau bod swyddogaeth y Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn unol â Chynllun Cydraddoldeb Sengl y Coleg	Pennaeth	Adolygu a chofnodi Rhagfyr 2009	Nodiadau cyfarfod 2009 i adlewyrchu'r cyflawni
	Cynnal arbenigedd y Coleg mewn deddfwriaeth Cydraddoldeb a Dyletswydd Gyhoeddus y Coleg	Tîm Rheoli Uwch (Grŵp Rheoli Risg y Coleg)	Adolygiad ac adroddiad blynyddol ym mis Mehefin	Mae'r cyfrifoldeb am gynnal gwybodaeth ddiweddar a chynnig argymhellion ar gyfer gweithredu wedi ei roi yn glir i o leiaf un person sy'n gweithredu ar lefel broffesiynol

Deeside College
Coleg Glannau Dyfrdwy

Cynllun Cydraddoldeb Sengl a Chynllun Gweithredu 2009 - 2010

	Hysbysu pob contractwr ac is-gontractwr o gyfrifoldeb ac ymrwymiad y Coleg i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth	Tîm Rheoli Uwch	Rhagfyr 2009	Cyfeiriad i'w gynnwys ym mhob dogfen dendr a chontract
Polisi a Gweithdrefn Sicrhau bod pob polisi, gweithdrefn, cynllun ac arfer yn cydymffurfio â deddfau cydraddoldeb	Datblygu a chynnal proses y Coleg ar gyfer Asesu Effaith	Rheolwr Ansawdd	Rhagfyr 2009	Asesiad Effaith wedi ei gwblhau ar gyfer pob polisi a gweithdrefn gyfredol a systemau cadarn yn barod gennym i sicrhau bod ychwanegiadau newydd yn cael eu hasesu fel rhan o'r drefn arferol.

Deeside College
Coleg Glannau Dyfrdwy

Cynllun Cydraddoldeb Sengl a Chynllun Gweithredu 2009 - 2010

Arolygu a chynllunio ar gyfer gweithredu Casglu data i ddangos ein bod yn cydymffurfio â'r gyfraith a gwelliant parhaol o ran cynrychiolaeth o'r llinynnau gyda phob rhanddeiliad	Cynnal systemau er mwyn cipio data perthnasol ar: Geisiadau myfyrwyr Cofrestriadau myfyrwyr, yn cynnwys mynediad i gyrsiau astudiaeth 'nad ydynt yn draddodiadol' Cwblhau yn llwyddiannus Myfyrwyr yn tynnu'n ôl Cronfa ddata ddisgyblaethol	Rheolwr Ansawdd	Rhagfyr 2009 ac yn flynyddol	Adroddiad i'r Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
	Cynnal systemau er mwyn cipio data perthnasol ar: Geisiadau gweithwyr Recriwtio gweithwyr Cyflog Hyfforddiant Dyrchafiad Disgyblaeth a Chwynion	Rheolwr AD	Rhagfyr 2009 ac yn flynyddol	Adroddiad i'r Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
	Sicrhau bod Cynlluniau Gwaith, cynlluniau gwersi a defnyddiau addysgu a dysgu yn rhoi sylw i'r anghenion hynny	Rheolwr Ansawdd	Mehefin 2010	Pob gweithdrefn a chyfarwyddyd perthnasol i fynnu hyn

Deeside College
Coleg Glannau Dyfrdwy

Cynllun Cydraddoldeb Sengl a Chynllun Gweithredu 2009 - 2010

	Cynnal arolygon o'r myfyrwyr a'r gweithwyr a grwpiau ffocws	Rheolwr Ansawdd (myfyrwyr); AD Rheolwr (gweithwyr)	Ar unwaith Mehefin 2010 ac yn flynyddol	Pob arolwg i gynnwys cwestiynau perthnasol. Adroddiad i'r Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
	Arolygu cwynion a chanmoliaethau	Rheolwr Cwynion	Ar unwaith	Cofnod cwynion i gynnwys demograffeg berthnasol, lle mae unigolion yn barod i'w darparu
	Cyhoeddi canlyniadau archwiliad	Rheolwr Marchnata	Mehefin 2010 ac yn flynyddol	Crynodeb o'r canlyniadau i'w gyhoeddi ar wefan y Coleg
	Cynllun gweithredu ar gyfer gwella a chamau adferol	Rheolwr Ansawdd a Rheolwr AD	Mehefin 2010 ac yn flynyddol	Adolygiad a chyflwyno cynigion i'r Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Deeside College
Coleg Glannau Dyfrdwy

Cynllun Cydraddoldeb Sengl a Chynllun Gweithredu 2009 - 2010

Marchnata a Hyrwyddo	Estyn y modd y mae'r coleg yn hyrwyddo ei hun i grwpiau, ardaloedd a sectorau nad ydynt yn draddodiadol	Rheolwr Marchnata	Yn parhau	Defnyddio cyhoeddiadau, gwefannau, rhwydweithiau ac ati sydd wedi eu targedu, er mwyn rhoi adroddiad i'r Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn flynyddol
	Arolygu'r modd y mae'n treiddio i grwpiau, ardaloedd a sectorau nad ydynt yn draddodiadol	Rheolwr Marchnata	Yn parhau	Rhagor o fyfyrwyr yn gwneud ceisiadau a chofrestru o'r categoriau hyn – adroddiad blynyddol ar hyn i'r GCA
	Parhau i hyrwyddo'r ymrwymiad i ddwyieithrwydd Cymraeg a Chynllun yr Iaith Gymraeg	Rheolwr Marchnata a'r Cydlynydd Iaith Gymraeg	Yn parhau	Adroddiad Blynyddol Cynllun yr Iaith Gymraeg
	Llunio cyfarwyddyd ar gyfer dod â deunydd addysgu, hyfforddi a recriwtio o fewn cyrraedd pobl, yn weledol ac o ran yr iaith a ddefnyddir	Rheolwr Ansawdd	Ar unwaith	Cyfarwyddiadau cyhoeddedig ar gael i bob myfyriwr a gweithiwr a'u hysbysu i bawb yn y pwyntiau sefydlu
	Sicrhau bod pob deunydd cyhoeddusrwydd yn hyrwyddo neu o leiaf yn ategu'r ymrwymiad i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth	Rheolwr Marchnata	Ar unwaith	Cyhoeddiadau dwyieithog yn unol â Chynllun yr Iaith Gymraeg. Lluniau wedi eu hargraffu ac ar y wefan i gynrychioli amrediad eang o amrywiaeth

Cynllun Cydraddoldeb Sengl a Chynllun Gweithredu 2009 - 2010

	Asesu gwefan a mewnrwyd y coleg yn erbyn Canllawiau Hygyrchedd Cynnwys y We a chydymffurfio â Menter Hygyrchedd y We a gweithredu'n briodol	Rheolwr Marchnata	Rhagfyr 2009	Adroddiad i'r Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
	Hyrwyddo ymrwymiad y coleg i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth a manteision hynny – ar fewnrwyd a gwefan y coleg	Rheolwr Ansawdd, Rheolwr AD a Rheolwr Marchnata	Medi 2009	Cynllun Cydraddoldeb Sengl wedi ei gyhoeddi ar wefan y coleg ac ar fewnrwydi'r myfyrwyr a'r gweithwyr
	Cyhoeddi data perthnasol, fel canlyniadau archwiliadau, nodiadau'r Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, cynnydd gyda thargedau'r Asesiad Effaith ar lein ac mewn Adroddiad Blynyddol	Rheolwr Ansawdd, Rheolwr AD a Rheolwr Marchnata	Yn parhau	Adroddiad o ddata penodol ar wefan a mewnrwyd y Coleg ac Adran Gydraddoldeb ac Amrywiaeth Adroddiad Blynyddol y Coleg

Deeside College
Coleg Glannau Dyfrdwy

Cynllun Cydraddoldeb Sengl a Chynllun Gweithredu 2009 - 2010

Contractau, partneriaethau a pherthynas gydag asiantaethau eraill	Defnyddio tystiolaeth o ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth yn faen prawf i ddewis ar gyfer dyfarnu contractau	Dirprwy Bennaeth Gwasanaethau Corfforaethol a Swyddog Cyllid – Caffael	Rhagfyr 2009	Adroddiad i'r Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar fesurau a roddwyd yn eu lle
	Hyrwyddo pwysigrwydd cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn cytundebau partneriaeth	'Rheolwr partneriaeth' coleg priodol	Ar unwaith	Cytundebau ysgrifenedig i gyfeirio at ymrwymiad pob carfan i hyrwyddo Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
	Cydweithredu'n weithredol gydag asiantaethau eraill fel APADGOS, Estyn, Gyrfa Cymru, CCHD, Rhwydwaith Cydraddoldeb Cymru, i hyrwyddo ymrwymiad a sicrhau y rhennir gwybodaeth	TRhU	Ar unwaith	Adroddiad gan aelod perthnasol y TRhU ar weithgareddau perthnasol